



# Polisi Di-fwg, Ysmygu a Mewnanadlu



<b>Enw'r Ganolfan: Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin</b>	<b>Rhif y Ganolfan: 68220</b>
<b>Mabwysiadwyd y Polisi gan y Corff Llywodraethol: 31/3/22</b>	
<b>Dyddiad adolygu'r polisi: Mawrth 2023</b>	

## Polisi Di-fwg Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin

Mae'r polisi hwn wedi cael ei ddatblygu drwy broses ymgynghori lawn gyda disgyblion, staff, rhieni a llywodraethwyr. Mae'r ysgol yn safle di-fwg.

### Cyfrifoldebau

Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin yn ystyried ei hun fel ysgol sy'n hybu iechyd. Mae'n cydnabod bod ei staff yn gweithredu fel modelau rôl ar gyfer disgyblion ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol, gan gynnwys hybu iechyd. Mae'r ysgol hon yn cydnabod bod anadlu mwg tybaco pobl eraill yn berygl i iechyd y cyhoedd ac yn fater lles. Felly, rydym wedi creu polisi ysmegu a gytunwyd. Ystyriwn 'mewnanadlu' yn yr un modd gan ei fod yn niweidiol yn gorfforol ac yn anghyfreithlon o dan 18 oed.

### Nodau:

- Gwarchod pobl sydd ddim yn ysmegu rhag effeithiau andwyol ar iechyd o fwg tybaco amgylcheddol yn y gweithle.
- Dangos ymrwymiad yr ysgol i hybu iechyd disgyblion a staff.
- Darparu gwybodaeth a chyngor ar gyfer y rhai sydd am roi'r gorau i ysmegu neu fewnanadlu

### Cyfyngiadau ar ysmegu

#### Staff

Ni all holl staff yr ysgol gan gynnwys glanhawyr a staff y gegin ysmegu neu fewnanadlu tra ar dir yr ysgol.

#### Disgyblion

Mae ysmegu neu fewnanadlu yn cael ei wahardd tra ar dir yr ysgol neu tra'n cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r ysgol y tu allan i furiau'r ysgol.

#### Rhieni

Nid oes hawl gan rieni ysmegu neu fewnanadlu tra ar dir yr ysgol.

#### Ymwelwyr

Mae'r polisi ysmegu a mewnanadlu yn berthnasol i holl ymwelwyr yr ysgol – er enghraifft, rhieni, cyflenwyr, staff cyflenwi neu staff dros dro. Mae'r trefniadau canlynol wedi cael eu gwneud ar gyfer hysbysu ymwelwyr o fodolaeth y polisi:

- Bydd arwyddion clir o gwmpas y safle i gyhoeddi'r polisi.
- Bydd aelodau'r staff yn hysbysu ymwelwyr o'r polisi pan fo angen.

#### Gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r ysgol

Bydd y gwaharddiad ysmegu a mewnanadlu yn gymwys yn ystod gweithgareddau ysgol y tu allan i dir yr ysgol, e.e. Ymweliadau Addysgol, teithiau tramor

#### Defnydd o safle'r ysgol tu allan i oriau gwaith arferol:

Pan fydd adeilad yr ysgol yn cael ei ddefnyddio at ddibenion heblaw gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r ysgol bydd y polisi ysmegu a mewnanadlu ysgol yn dal yn aros yn weithredol.

Mae'r cyfyngiadau hyn hefyd yn berthnasol i bob math o e-sigarennau ac ENDS.

### Gweithdrefnau

#### Gweithredu a monitro

- Bydd aelodau o staff yn derbyn copi o'r Polisi a fydd yn dod yn rhan o'u contract cyflogaeth.
- Bydd rhieni yn cael gwybod am y polisi.
- Bydd aelodau o staff yn hysbysu ymwelwyr o'r polisi os oes angen.

- Bydd arwyddion a hysbysiadau yn cael eu postio mewn mannau amlwg ar draws safle'r ysgol.
- Bydd y polisi ysmygu ysgol yn cael ei fonitro o leiaf unwaith y flwyddyn gan yr Uwch Dîm Arwain mewn ymgynghoriad â'r staff a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Llywodraethwyr. Bydd y Polisi yn cael ei adolygu ac, os yw'n briodol, ei ddiwygio.